# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017

**YN BRESENNOL:** **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones
Y Cynghorydd R Meirion Jones

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**

Mr Gordon Warren

**Aelodau Annibynnol**

Dr Haydn Edwards

**WRTH LAW:** Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Swyddog Pwyllgor (SC).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghroydd Gwilym O Jones

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Dr Haydn Edwards yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Dr Haydn Edwards a'r Cynghorydd R Meirion Jones ddiddordeb personol yn Eitem 5 ar y rhaglen.

Gofynnodd y Cadeirydd am iddo gael ei nodi bod y Cynghorydd Gwilym O Jones wedi datgan diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5 ar y rhaglen ac nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o Banel Dethol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2017 yn gywir.

**4 CAU ALLAN Y WAG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 12 ar y sail y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

## 5 CYFWLED YR YMGEISWYR SYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER RÔL AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y broses gyfweld ar gyfer ymgeiswyr oedd ar y rhestr fer i gael eu penodi i'r sedd wag ar y Pwyllgor Safonau.

Ystyriwyd yr ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd yn yr adroddiad a chynhaliwyd cyfweliadau.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Dewis dim mwy nag un ymgeisydd i'w enwebu gan y Panel i'w benodi i'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn cytuno i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn ar 12 Rhagfyr, 2017 yn enwebu'r ymgeisydd llwyddiannus (yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol).**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn argymell i'r Cyngor y dylid penodi'r ail ymgeisydd sydd ar y rhestr fer yn awtomatig i unrhyw sedd wag achlysurol arall ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau pe bai sedd wag yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf (yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol a bod yr ymgeisydd yn cytuno).**

**DR HAYDN EDWARDS**
**CADEIRYDD**